

a gwbl i ddisgrifio prif nodweddion yr eitemau. Llithrodd yr awduron fwy nag unwaith drwy gamddyddio rhai teitlau, ond mae'n wir dweud yr un peth mai hon yw'r rhestr gyflawnaf o gylchgronau a newyddiaduron Cymraeg a Chymreig a gyhoeddwyd cyn 1860. Yn wir ceir hanner dwsin o eitemau yn y rhestr hon na wyddom ni ddim oll amdanynt, ac nid oes sicrwydd chwaith i'r awduron eu gweld. Codwyd y rhestr yn ei chrynsyth gan Owen M. Edwards, a'i hailgyhoeddi mewn dwy ran yn *Cymru* dair blynedd ar ddeg ar hugain yn ddiweddarach. Ni wnaed unrhyw ymgais i gywiro camgymeriadau'r rhestr wreiddiol nac i ychwanegu dim ati, ond cyhoeddwyd atodiad iddi yn yr un cyhoeddiad. William Davies, brodor o Dal-y-bont yng Ngheredigion, a luniodd yr atodiad hwn sy'n rhestru chwarterolion, misolion, pythefnosolion ac wythnosolion Cymru rhwng 1859 a 1892.

Daeth William Davies i amlygrwydd gyntaf yn 1883 pan ddyfarnwyd ei ymddiriedolaeth, *'The periodical literature of Wales during the present century'*, yn gydfuddugol ag eiddo Evan Lloyd Jones, Llanberis, yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd y flwyddyn honno yng Nghaerdydd. Cyfunwyd y ddau draethawd arobryn ar awgrym y beirniaid, ac ymddengys i D. Tudor Evans, ysgrifennydd prifwyl Caerdydd, eu golygu ar gyfer eu cyhoeddi. Mae cywaith Davies a Jones yn trafod cyfanswm o 221 o deitlau Cymraeg a Chymreig, a'r rheini wedi eu rhestru mewn trefn amseryddol rhwng 1799 a 1883. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gyflawn, ac mae nifer o gyhoeddiadau byrnodlog ond cymharol bwysig yn eisiau ohoni. Camddyddir nifer o deitlau yn ogystal, ond ceir manylion cynhwysfawr wrth y prif gylchgronau enwadol. Orlheinir eu datblygiad a darperir gwybodaeth am eu golygyddiaeth, er nad yw'r manylion hynny'n gywir bob amser. Nodir y teitlau hynny sy'n dal cysylltiad â'i gilydd drwy esgor ar deitl newydd, ond ymddengys i'r awduron gynnwys rhai llyfrau a gyhoeddwyd mewn rhannau yn ogystal. Mae i'r cywaith hwn, felly, ei wendidau amlwg ac, er mai'r rhestr hon oedd y fwyaf cynhwysfawr i'w chyhoeddi cyn 1893, ni thâl i'r ymchwilydd ddibynnu gormod arni.

Bu Isaac Foulkes (Llyfrbryf, 1836-1904) yn olrhain datblygiad y wasg gyfnodol yn ogystal, a chyhoeddwyd ei drafodaeth yntau, *'Llenyddiaeth gyfnodol Gymreig'*, yn *Transactions of the Liverpool Welsh National Society* am 1888-89. Arwynebol, ar y cyfan, yw ei ymddiriedolaeth a phrin y gellir

dweud ei bod yn cynnig gwybodaeth newydd am y gylchgronau a'u golygyddion. Ond yr oedd nifer o Gymry'r cyfnod yn ymwybodol o'r angen am drafodaeth gynhwysfawr a dibynadwy ar gynnyrch gwasg gylchgronol a newyddiadurod Cymru. Bu twf aruthrol yn rhif y cyfnodolion erbyn degawd olaf y ganrif, a daethpwyd i sylweddoli yn y man bod angen rhyw fath o reolaeth lyfryddol ar y cynnyrch hwn. Gan nad oedd gan Gymru yr un sefydliad, megis ei Llyfrgell Genedlaethol ei hun, a allai ymgymryd â'r gwaith hwnnw, nid yw'n annisgwyl mai o du Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol y cafwyd yr arweiniad pendant cyntaf.

Yr oedd y traethawd eisteddfodol eisoes wedi dod i fri erbyn nawdegau'r ganrif ddiwethaf, a gwelodd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol yn dda i hyrwyddo astudiaethau sylweddol yn Gymraeg a Saesneg drwy osod testunau uchelgeisiol i eisteddfodwyr gystadlu arnynt. Rhoddwyd lle anrhydeddus i lenyddiaeth Cymru a chynnyrch ei gwasg yn y cystadlaethau hyn. Cystadlaethau o'r fath a roes inni gywaith William Davies ac Evan Lloyd Jones, a gosodwyd 'Rhagoriaethau a diffygion y wasg Gymreig' yn destun o'r traethodau yn Eisteddfod Bangor yn 1890 pan ddyfarnwyd eiddo T. M. Jones (Gwenallt) yn fuddugol. Flwyddyn yn ddiweddarach, a'r Brifwyl yn Abertawe, yr oedd 'Y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymreig' ymhlith y testunau, a T. M. Jones, unwaith yn rhagor yn cipio'r llawryf. Yn Abertawe hefyd y gwobrwywyd Charles Ashton am ei draethawd sylweddol ar 'Hanes llenyddiaeth Gymraeg o 1651 hyd 1850'. Yr oedd T. M. Jones a Charles Ashton ymlith y mwyaf diwyd o haneswyr llên Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni chafodd yr un o'r ddau fawr o fanteision addysgol, ond 'roedd gan y naill fel y llall ddiddordeb ysol yng nghynnyrch llenyddol y genedl, a gwnaethant gymwynas fawr â hi drwy gronicio a chofnodi'r cynnyrch hwnnw.

Prin y gellir dweud bod Charles Ashton (1848-99) yn feirniad llenyddol. Casglu ffeithiau am awduron a theitlau llyfrau oedd ei ddiddordeb pennaf, ac nid oedd trafod rhagoriaethau na gwendidau'r gweithiau hynny yn friwad ganddo. Dyna wenddi a chryfder ei gyfrol sy'n gloddfa werthfawr o ffeithiau am weithiau beirdd a llenorion y cyfnod rhwng 1650 a 1850. Trafodir 42 o deitlau cyfnodolion yng nghorff y gwaith a'r trafodaethau hynny'n amrywio'n fawr o ran manylder. Fodd bynnag, paratodd yr awdur restr fanwl o gynnyrch y wasg gyfnodol rhwng 1735 a 1850 fel

atodiad i'w gyfrol. Dosberthir y teitlau hyn i bump o adrannau — chwarterolion, deufisoliion, misolion, pythefnosolion ac wythnosolion, ac fe'u rhestrir yn ôl blwyddyn eu sefydlu. Gwelodd Ashton yn dda i gynnwys gwasg gyfnodol Gymraeg America yn ei restr yn ogystal, a darparodd fanylion am y golygydd a'r argraffydd cyntaf.

Yr un flwyddyn â chyhoeddi gwaith Charles Ashton ymddangosodd cyfrol T. M. Jones (Gwenallt, 1859-1933), *Llenyddiaeth fy ngwlad: sef hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America ac Awstralia, yn nghyd a'u dylanwad ar fywyd cenedl y Cymry*. Mae yn y gyfrol bump o benodau, a dwy ohonynt yn trafod dylanwad y wasg gyfnodol ar fywyd y genedl, a diffygion a rhagoriaethau'r cynnyrch. Rhestrir y cynnyrch hwn mewn dwy bennod arall a neilltuir pennod ychwanegol ar gyfer cynnyrch y wasg dramor. Cyfyngodd T. M. Jones ei hun i deitlau Cymraeg yn unig; cofnododd dros drigain o newyddiaduron Cymraeg a gyhoeddwyd rhwng 1814 a 1892, a disgrifiodd tua dau gant o deitlau cylchgronau. Dosberthir y rhain yn fras yn ddeg o adrannau megis cylchgronau crefyddol, llenyddol, cenhadol, athronyddol, dirwestol a cherddorol. Rhestrir cylchgronau plant a merched mewn dwy adran arall, a neilltuir tuag wyth ar hugain o deitlau y bu'n anodd gan yr awdur eu dosbarthu i adran ar wahân yn dwyn y pennawd 'Y cylchgrawn cyffredinol'.

Prin y gellir disgwyl i'r rhestrau hyn fod yn gyflawn, a chyfaddefodd Gwenallt ei hun na lwyddodd i ddod o hyd i gopiau o bob un o'r cylchgronau Cymraeg. Ni ellir dibynnu gormod ar gywirdeb y gwaith bob tro chwaith, a chamddyddir nifer fawr o eitemau. Mae'r awdur hefyd yn ailadrodd nifer o gamgymeriadau a gafwyd mewn rhestrau cynharach. Erys yn ffaith arwyddocaol, fodd bynnag, mai *Llenyddiaeth fy ngwlad* yw'r unig restr gynhwysfawr sydd gennym o gynnyrch gwasg gyfnodol Gymraeg y ganrif ddiwethaf sy'n cynnwys gwybodaeth lyfryddol am y cyhoeddiadau, ac ar waetha'i ddiffygion y mae'n waith anhepgor i'r hanesydd a'r ymchwilydd fel ei gilydd.

Rhoddwyd cryn sylw i gynnyrch gwasg gyfnodol Gymraeg y Taleithiau Unedig dros y blynyddoedd, ac mae'n debyg taw Hugh J. Hughes oedd y cyntaf i fynd i'r afael â'r cynnyrch hwn yn ei drafodaeth 'Hanes enwogion Cymreig a'u hiliogaeth, yn nghyd â hanes llenyddiaeth y Cymry yn America', sef traethawd arobryn Eisteddfod Utica, Oneida County, yn 1861. Ychydig a

wyddys am yr awdur, rhagor na'i fod yn argraffydd yn Efrog Newydd rhwng 1866 a 1871 pan symudodd i Hyde Park, Pennsylvania, i ofalu am swyddfa argraffu *Cyfaill o'r hen wlad yn America*, misolyn y Methodistiaid Calffaidd Cymraeg yn y Taleithiau Unedig. Mae'n debyg y gwyddai Hugh Hughes gryn dipyn am hynt a helynt gwasg gyfnodol Gymraeg America, oblegid bu ef ei hun yn gyfrannwr cyson i gylchgronau a newyddiaduron y wlad, a bu hefyd yn olygydd a chyhoeddwr y misolyn poblogaidd *Yr Ysgol* rhwng 1869 a 1872.

Cyhoeddwyd rhannau o draethawd arobryn Hughes, 'Hanes llenyddiaeth y Cymry yn y wlad hon', yn nhrwydded ran cyfrol Robert D. Thomas (Iorthryn Gwynedd), *Hanes Cymry America*, a gyhoeddwyd yn 1872. Trafodir un ar bymtheg o gyfnodolion yn y gwaith, a rhoddir manylion am yr amgylchiadau a arweiniodd at eu sefydlu, eu golygyddion, eu pris a'u maint. Disgrifir eu prif nodweddion hefyd. Gan mai yn 1861 y paratwyd yr ymddiriedolaeth hon nid yw'n cynnwys manylion am ddatblygiad gwasg gyfnodol Gymraeg America wedi'r flwyddyn honno, ond mae'n deg nodi yr un pryd i R. D. Thomas ei hun gynnwys rhai sylwadau pellach ar y wasg mewn rhan arall o'i gyfrol.

Cafwyd rhestr ddefnyddiol o gylchgronau a newyddiaduron Cymraeg a Chymreig America gan Idwal Lewis mewn rhifyn arbennig o *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* a neilltuwyd ar gyfer materion o ddiddordeb Cymreig-Americanaidd yn 1942. Rhestrir tri ar ddeg ar hugain o gylchgronau ac un ar ddeg o newyddiaduron yn y gwaith, a nodir pa deitlau a oedd ymhlith daliadau'r Llyfrgell Genedlaethol yn 1942. Darperir gwybodaeth am gyhoeddwyd a golygyddion y cyhoeddiadau yn ogystal â'u maint a'u prif nodweddion.

Eithr mae'n debyg taw'r prysuraf o haneswyr Cymry America oedd Bob Owen, Croesor, a chyhoeddwyd tair ymddiriedolaeth o'i eiddo ar wasg gyfnodol Gymraeg y Taleithiau Unedig yn ystod y tridegau. Yna, yn 1950 cyhoeddwyd ei restr gynhwysfawr o gyfnodolion Cymraeg a Chymreig America yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*. Rhestrir hanner cant a chwech o gyfnodolion yn nhrefn yr yddor yn y gwaith, a'r mwyafrif o'r cofnodion yn darparu manylion am gyhoeddwyd, golygyddion ac argraffwyr. Rhoddir disgrifiad byr o'u prif nodweddion yn ogystal. Ni lwyddodd Bob Owen i ddod o hyd i fanylion am bob un o'r teitlau a restrwyd ganddo, fodd bynnag. Gwelodd gyfeiriadau yn unig at rai ohonynt, a'r